TGAU

4272/52

# HANES

## UNED 2: ASTUDIAETH FANWL

## Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad yng Nghymru a Lloegr, 1930-1951

P.M. DYDD MAWRTH, 14 Mehefin 2016

1 awr 15 munud a'ch amser estynedig

Cyfenw ______________________________

Enwau Eraill ______________________________

Rhif y Ganolfan ______________________________

Rhif yr Ymgeisydd 0______________________________

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

SJJ*(S16-4272-52) MLP

| I'r Arholwr yn Unig | | |
|---|---|---|
| Cwestiwn | Marc Uchaf | Marc yr Arholwr |
| 1. | 17 | |
| 2. | 18 | |
| 3. | 16 | |
| SAG | 3 | |
| Cyfanswm | 54 | |

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Defnyddiwch inc du, beiro du neu eich dull arferol.**

**Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd ar y dudalen flaen.**

**Atebwch BOB cwestiwn ar y papur arholiad.**

**Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Os na fydd digon o le, defnyddiwch y dudalen barhad yng nghefn y llyfryn ac os nad yw hynny'n ddigon, defnyddiwch daflenni ychwanegol. Ysgrifennwch eich enw ar ben pob taflen ychwanegol, gan nodi'n glir rif y cwestiwn rydych yn ei ateb. Rhowch y taflenni ychwanegol y tu mewn i'r llyfryn hwn.**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.**

**Cofiwch y bydd ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig yn cael ei ystyried wrth asesu'r atebion sy'n gofyn am ysgrifennu estynedig, sef cwestiynau 1(c) a 3(b).**

**Hefyd, bydd eich gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir yn cael ei asesu yn eich ateb i gwestiwn 3(b).**

## FFYNHONNELL A



**Ffotograff yn dangos y babanod cyntaf i gael eu geni ar y GIG. Mae dwy nyrs yn dal tri baban newydd ei eni (new-born).**

**Atebwch BOB cwestiwn.**

**CWESTIWN 1**

## Mae'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar ddatblygiadau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru a Lloegr ar ôl y rhyfel. [17]

**Astudiwch y ffynhonnell gyferbyn ac yna atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.**

**(a)** **Defnyddiwch Ffynhonnell A a'r hyn rydych chi'n ei wybod i ddisgrifio'r gwasanaethau oedd yn cael eu cynnig gan y GIG. [3]**

**1(b) Eglurwch pam cafodd y polisi gwladoli ei gyflwyno gan y llywodraeth Lafur ar ôl y rhyfel. [6]**

**Astudiwch y ddwy ffynhonnell hyn sy'n ymwneud ag Etholiad Cyffredinol 1945 ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.**

**FFYNHONNELL B**

**Mae polisïau Llafur yn groes i syniadau Prydeinig am ryddid. Bydd y Blaid Lafur, unwaith y bydd mewn grym, yn penderfynu ar ran pawb: ble maen nhw i weithio, ble maen nhw'n cael mynd a beth maen nhw'n cael dweud, ble bydd eu gwragedd yn ciwio i dderbyn dogn (RATION) y Wladwriaeth, a pha addysg bydd eu plant yn ei derbyn.**

**[Winston Churchill, arweinydd y Ceidwadwyr, yn siarad mewn darllediad etholiadol (ELECTION BROADCAST) ar 4 Mehefin 1945]**

**FFYNHONNELL C**

**Roedd y pleidleiswyr yn fwy parod i dderbyn addewidion y Blaid Lafur a newidiadau'r dyfodol, nid yr ofn am sosialaeth roedd y Ceidwadwyr yn ceisio'i ledaenu. Pan wnaeth Churchill gymharu Prydain dan y Blaid Lafur â'r Natsïaid gan ddweud byddai Llafur angen Gestapo, doedd pobl ddim yn hapus. Roedd atgofion am fethiannau'r Ceidwadwyr a diweithdra cyn y rhyfel yn dal yn gryf ac roedd llawer o bobl heb faddau iddyn nhw.**

**[Robert Wilde, hanesydd, yn ysgrifennu mewn erthygl o'r enw, 'WHY CHURCHILL LOST THE 1945 ELECTION'. Cafodd yr erthygl ei chyhoeddi ar wefan addysgol yn 2012]**

1(c) **Pam mae Ffynonellau B ac C yn rhoi safbwyntiau gwahanol am Etholiad Cyffredinol 1945? [8]**

**Yn eich ateb, dylech sôn am gynnwys ac awduraeth (AUTHORSHIP) y ffynonellau.**

| |
|---|
| |
| 17 |

**DIWEDD CWESTIWN 1**

## CWESTIWN 2

**Mae'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar effaith blynyddoedd y Dirwasgiad. [18]**

**(a) Disgrifiwch rôl adloniant poblogaidd yn ystod y Dirwasgiad. [4]**

2(b) Eglurwch pam dirywiodd diwydiannau traddodiadol yn ystod y Dirwasgiad. [6]

**2(c) Pa mor dda gwnaeth y bobl yn ardaloedd dirwasgedig Cymru a Lloegr ddelio â heriau (CHALLENGES) blynyddoedd y Dirwasgiad? [8]**

| |
|---|
| |
| 18 |

**DIWEDD CWESTIWN 2**

**CWESTIWN 3**

## Mae'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar effaith rhyfel ar fywyd ar y Ffrynt Cartref. [16+3]

**(a) Amlinellwch YN GRYNO sut roedd Prydain yn paratoi ar gyfer y rhyfel. [4]**

3(b) **Pa mor llwyddiannus oedd pobl Cymru a Lloegr wrth geisio ymdopi â'r profiad o ryfel? [12]**

**Yn eich ateb, dylech drafod llwyddiannau a methiannau pobl wrth iddyn nhw geisio ymdopi â'r profiad o ryfel.**

**Yn y cwestiwn hwn, mae marciau'n cael eu rhoi am sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir. [3]**

| |
|---|
| 16 |

| |
|---|
| SAG 3 |

**DIWEDD CWESTIWN 3**

**DIWEDD Y PAPUR**

**Parhad yn unig.**

**Os ydych chi'n defnyddio'r llinellau isod, nodwch yn glir bob tro pa gwestiwn rydych chi'n parhau i'w ateb.**